Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymru'r Dyfodol

## Y cynllun cenedlaethol hyd at 2040

**Y pethau mae arnon ni angen meddwl amdanyn nhw wrth gynllunio pethau fel tai, adeiladau a chyflenwadau pŵer**



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Gymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040'**.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd - This document is also available in English.

**Ebrill 2021**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen help i’w darllen hi. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i’w deall. Gallwch edrych i weld beth mae’r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 41**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Cyfeiriad:** Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Gwefan:** llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040

**E-bost:** cymrurdyfodol@llyw.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.



ISBN 978-1-80195-246-0

# Cynnwys

Tudalen

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon......2**

**Cyflwyniad......4**

Cynllunio yng Nghymru......8

**Y pethau y mae arnon ni eisiau eu cyflawni......11**

Ardal Dwf Genedlaethol......14

Ardal Dwf Ranbarthol......15

Cymunedau cefn gwlad......16

Y rhanbarthau......18

**Y ffordd rydyn ni'n cynllunio ac yn rheoli twf...... 34**

Canol trefi yn gyntaf......35

Gwella cludiant cyhoeddus......35

Signal ffôn symudol a rhyngrwyd band eang......36

Cerbydau ynni glân......36

Lleoedd gwyrdd......37

Coedwig Genedlaethol......37

Ynni glân......38

Rhwydweithiau Gwresogi......40

**Geiriau anodd......41**

Mapiau wedi'u cynhyrchu gan Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y goron a hawl cronfeydd data 2020

# Cyflwyniad




Mae hwn yn eglurhad hawdd ei ddeall o'n **fframwaith** ar gyfer cynllunio'r newid a'r datblygiad sydd arnon ni eu hangen yng Nghymru dros yr ugain mlynedd nesaf.

Mae **fframwaith** yn ddogfen sydd â set o reolau a syniadau i bobl eu dilyn wrth wneud penderfyniadau pwysig.



Mae'r **fframwaith** yn cael ei alw'n **Gymru'r Dyfodol**. Hwn yw'r **fframwaith** cyntaf o'i fath yng Nghymru. Bydd yn help i ddangos y ffordd ynghylch pob penderfyniad cynllunio sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar bethau fel:

- Tai
- Ffyrdd, rheilffyrdd a llwybrau beiciau
- Cyfleusterau iechyd
- Cyflenwadau ynni
- Cludiant cyhoeddus
- Signal ffôn symudol
- Rhyngrwyd
- A phob gwasanaeth arall sydd eu hangen ar bobl i fyw bywyd da.


WILLMOTT DIXON



Bydd **Cymru'r Dyfodol y**n ein helpu i wneud y mwyaf o'r:

- lle rydyn ni'n byw
- lle rydyn ni'n gweithio
- sut rydyn ni'n teithio
- ein **hamgylchedd** a natur.



Yr **amgylchedd** yw ble rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddyn nhw neu arnyn nhw. Er enghraifft planhigion, anifeiliaid a physgod.



Rydyn ni'n wynebu argyfwng **amgylcheddol**. Mae'r ffordd rydyn ni'n byw ac yn trin ein planed yn effeithio ar batrymau'r tywydd a chynhesu byd-eang – mae ein planed yn mynd yn gynhesach.



Mae hyn yn cael effaith mawr iawn ar natur a'r lleoedd mae anifeiliaid a phlanhigion yn byw. Mae rhai mathau o blanhigion ac anifeiliaid yn darfod o'r tir, neu maen nhw mewn perygl o ddarfod o'r tir.



Mae'n cael effaith mawr iawn arnon ni hefyd. Erbyn hyn rydyn ni'n fwy tebygol o gael llifogydd, tywydd poeth iawn a stormydd.




Mae'r coronafeirws wedi ymledu ar draws y byd i gyd. Mae hyn wedi cael effaith mawr iawn ar ein hiechyd, y ffordd rydyn ni'n byw a'n **heconomi**.

Yr **economi** yw faint o arian sydd gan wlad a hefyd faint o arian sydd gan unigolion.



Mae arnon ni angen dod o hyd i ffyrdd o ddatblygu a thyfu sy'n ein helpu i wella ein lles ac ansawdd ein bywyd,gan ofalu am ein **hamgylchedd** yr un pryd.




Bydd **Cymru'r Dyfodol** yn ein helpu i wneud hyn.

# Cynllunio yng Nghymru



Mae tair lefel o gynllunio yng Nghymru. Y lefel uchaf yw **fframwaith** Cymru'r Dyfodol, sydd ar gyfer Cymru i gyd.



Y lefel nesaf o gynllunio yw'r **Cynlluniau Datblygu Strategol** – mae'r cynlluniau hyn ar gyfer pob **rhanbarth** o Gymru. Bydd mwy o fanylion ynddyn nhw ynghylch beth fydd yn digwydd ac ym mha le y bydd yn digwydd.

Ar gyfer y gwaith hwn bydd Cymru'n cael ei rhannu'n bedair **rhanbarth**:

- **Y Gogledd**
- **Y Canolbarth**
- **Y De-orllewin**
- **a'r De-ddwyrain.**



Ac yna mae gennym ni'r **Cynlluniau Datblygu Lleol** – mae'r cynlluniau hyn ar gyfer pob ardal gyngor yng Nghymru.



Mae llawer o bethau mae arnon ni eisiau meddwl amdanyn nhw er mwyn gwneud yn siŵr bod lleoedd yn cael eu cynllunio'n dda ac yn cwrdd â'n hangenion, yn awr ac yn y dyfodol.



Mae llawer o bolisïau a chynlluniau eraill ar gyfer datblygu, a'r ffordd y mae adeiladau a lonydd yn cael eu trefnu yng Nghymru.

Bydd **fframwaith** **Cymru'r Dyfodol** yn gweithio gyda'i gilydd gyda'r holl gynlluniau hyn i:



- weithio mewn ffordd cysylltiedig â'n gilydd



- gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus



- gwneud yn siŵr ein bod yn meddwl am yr holl bethau sydd arnon ni angen gwneud. Fel sut y gallai newid mewn un ardal effeithio ar wasanaethau neu wneud lles i wasanaethau a newid mewn ardal arall.



# Y pethau mae arnon ni eisiau eu cyflawni



Bwriad **ffframwaith** **Cymru'r Dyfodol** yw cefnogi cynllunio fydd yn gwneud Cymru'n lle ardderchog. Mae un ar ddeg o bethau pwysig y mae arnon ni eisiau eu cyflawni dros yr ugain mlynedd nesaf. Y pethau hyn yw:



1. Cymru ble mae pobl mewn cysylltiad â'i gilydd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Maen nhw'n byw mewn cartrefi da yn agos at wasanaethau a lleoedd gwyrdd, fel parciau a thir coediog.



2. Cymru ble gall pobl fyw'n hapus yng nghefn gwlad. Gyda chartrefi da, gwaith a gwasanaethau.



3. Cymru ble mae pobl yn cael yr un cyfleoedd ble bynnag maen nhw'n byw.




4. Iaith Gymraeg gref.



5. Cymru ble mae'n trefi a'n dinasoedd yn mynd yn fwy a mwy o bobl ynddyn nhw.



6. Cymru ble y gall pobl lwyddo a bod yn greadigol.




7. Teithio sy'n dda i'r **amgylchedd** sydd ddim yn achosi gormod o **lygredd**.



**Llygredd** yw pan fydd unrhyw beth sy'n achosi niwed i'r **amgylchedd** yn cael ei ollwng i'r ardal oddi amgylch. Er enghraifft nwyon fel **carbon.**



8. Rhyngrwyd da a dysgu am bethau newydd ym myd **technoleg**.

**Technoleg** yw pethau fel cyfrifiaduron, peiriannau ac offer.



9. Gofalu am gyfoeth naturiol. A chael llai o **lygredd**.

> Mae **cyfoeth naturiol** yn bethau fel y gwynt, yr haul, dŵr, glo a haearn. Maen nhw'n dod o fyd natur a gallwn eu defnyddio ar gyfer pethau fel ynni, pŵer a bwyd.



10. Bywyd da a chryf i anifeiliaid a phlanhigion.



11. Llai o garbon yn yr aer. Nwy yw **carbon** sy'n gwneud drwg i'n **hamgylchedd**.



Byddwn yn edrych pa mor dda rydyn ni'n cyflawni'r nodau yn **ffframwaith** **Cymru'r Dyfodol** bob pum mlynedd.

# Ble y bydd Cymru'n tyfu



Mae fframwaith **Cymru'r Dyfodol** yn dweud sut fath o ddatblygu ddylai ddigwydd ym mha fathau o leoedd.

## Ardaloedd Twf Cenedlaethol

Rydyn ni'n cefnogi twf a datblygiad ym mhob rhan o Gymru. Er hynny, mae tair **Ardal Dwf Genedlaethol** ble byddwn ni'n canolbwyntio ar dwf:



- gwaith



- tai



- rhwydwaith mewnol – mae hyn yn meddwl sut mae pethau fel ffyrdd, llinellau ffôn, carthffosiaeth a thrydan yn cael eu trefnu.



**Y tair Ardal Dwf Genedlaethol yw:**

- Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd
- Bae Abertawe a Llanelli
- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy

## Ardaloedd Twf Rhanbarthol




Bydd y tair **Ardal Dwf Genedlaethol** yn cael eu cefnogi gan dwf a datblygiad yn yr **Ardaloedd Twf Rhanbarthol**. Mae Ardaloedd Twf Rhanbarthol mewn tair **rhanbarth**:

- Y De-orllewin
- Y Canolbarth
- Y Gogledd




Mae nifer o leoedd pwysig yn yr **Ardaloedd Twf Rhanbarthol**. Maen nhw'n ganolfannau ar gyfer pethau fel gwaith, gwasanaethau, siopau a thwristiaeth yn yr ardal honno. Er enghraifft, Caerfyrddin yn y De-orllewin ac Aberystwyth yn y Canolbarth.



Bydd y **Cynlluniau Datblygu Strategol** a'r **Cynlluniau Datblygu Lleol** yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn wrth gynllunio gwasanaethau.

# Cymunedau cefn gwlad




Bydd twf yng nghefn gwlad yn cael ei seilio ar y pethau y mae ar y bobl sy'n byw yno ei angen a'i eisiau.



Mae arnon ni angen cael pobl o oedran gweithio i fyw yng nghefn gwlad a'u cadw yno. Bydd hyn yn ein helpu i gadw a datblygu gwasanaethau yno.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd y ffordd hon o gynllunio twf yn helpu i amddiffyn y tir yng nghefn gwlad. Yn enwedig tir fferm pwysig. Ac ymadael â'r angen i adeiladu trefi newydd neu drefi mwy yng nghefn gwlad.




Ardal Dwf Genedlaethol

Ardal Dwf Ranbarthol


Parciau Cenedlaethol


Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

## Y rhanbarthau


Ar gyfer y gwaith hwn mae Cymru'n cael ei rhannu'n bedair **rhanbarth**:

- **Y Gogledd**
- **Y Canolbarth**
- **Y De-orllewin**
- **a'r De-ddwyrain**






Mae cynllunio ar gyfer bob un o'r pedair **rhanbarth** yn rhan bwysig iawn o'r holl system gynllunio. Hwn yw'r cyswllt rhwng **fframwaith** **Cymru'r Dyfodol** a gwneud yn siŵr ein bod yn delio â materion lleol.



Mae'n rhaid i bob **rhanbarth** gael **Cynllun Datblygu Strategol** sy'n gweld yr heriau a'r cryfderau o fewn y **rhanbarth** honno ac sydd hefyd yn **cwblhau'r** cynlluniau a'r gwaith sy'n digwydd mewn **rhanbarthau** eraill.




Mae hyn yn meddwl y dylai **rhanbarthau** weithio'n dda gyda'i gilydd i ddelio â materion sy'n digwydd ar draws y **rhanbarthau**. A gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer twf.



Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gan bob **rhanbarth** **Gynllun Datblygu Strategol**.



# Y Gogle



Mae bron i 700 mil o bobl yn byw yma.




Mae Cymraeg yn rhan bwysig o fywyd yma. Mae dros 204 mil o bobl yn siarad Cymraeg. Mae llawer yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw ar hyd yr arfordir.




- **Conwy**
- **Gwynedd**
- **Parc Cenedlaethol Eryri**
- **Sir Ddinbych**
- **Sir y Fflint**
- **Wrecsam**
- **Ynys Môn**



Mae twristiaeth a chynhyrchu nwyddau (gwneud pethau) yn bwysig ar gyfer gwneud arian yn yr ardal hon.



**Wrecsam** a **Glannau Dyfrdwy** fydd y prif ffocws ar gyfer twf yn y Gogledd. Hon yw'r Ardal Dwf Genedlaethol ar gyfer y Gogledd.

Yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol yw:

- **Caernarfon**
- **Bangor**
- **Llandudno**
- **Caergybi**
- **Bae Colwyn**
- **Y Rhyl**
- **Prestatyn**




Bydd arnon ni angen dros 16 mil o gartrefi newydd yn y **rhanbarth** hwn. Dylai ychydig dros hanner fod yn fforddiadwy. Mae hyn yn meddwl digon rhad i bobl fedru eu prynu neu eu rhentu.




Mae llifogydd yn broblem fawr mewn llawer o'r lleoedd hyn. Mae'n rhaid i ni feddwl am lifogydd wrth gynllunio a gwneud yn siŵr bod tai pobl yn ddiogel.



Mae'n rhaid i **Gynlluniau Datblygu Strategol** amddiffyn natur, yr **amgylchedd** a chefn gwlad o amgylch trefi a dinasoedd.



Mae Caergybi yn bwysig iawn. Mae llawer o bobl yn dod i Gymru mewn cwch i Borthladd Caergybi.



Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod Porthladd Caergybi y gorau y gall fod.




Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod cludiant cyhoeddus da ar draws y **rhanbarth** ac i mewn i Ogledd-orllewin Lloegr.



Mae'n rhaid i **Gynlluniau Datblygu** gefnogi **Metro** newydd Gogledd Cymru.

Mae **Metro** yn system gludiant.



Dylai'r **Metro** newydd helpu i wella teithio rhwng:

- Gogledd Cymru
- Caer
- Lerpwl
- Manceinion




Rydyn ni'n cefnogi prosiectau ynni newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru. Dylai prosiectau ynni roi gwaith, hyfforddiant a medrau i bobl.



Byddwn yn meddwl am brosiectau ynni niwclear. Ac a oes arnon angen ynni sydd wedi ei wneud yn y ffordd hon. Ac a allai gael effaith ddrwg.



# Canolba



Mae 205 mil o bobl yn byw yma. Mae bron i 60 mil o siaradwyr Cymraeg.



Hwn yw’r **rhanbarth** sydd â’r ardal fwyaf o gefn gwlad.



Mae llawer o’r bobl sy’n byw yma yn teithio ar gyfer gwaith, addysg a gwasanaethau.



- **Ceredigion**
- **Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
- **Powys**

# rth




Mae twristiaeth yn bwysig ar gyfer gwneud arian yma. Mae’n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y **rhanbarth** hwn â chysylltiad da â’r tri **rhanbarth** arall yng Nghymru, a hefyd y trefi Seisnig ar y ffin.

Yr **Ardaloedd Twf Rhanbarthol** yw:


- Dyffryn Teifi, gan gynnwys Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan
- Aberhonddu a’r Gororau
- Calon Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair ym Muallt
- Bro Hafren, gan gynnwys Y Trallwng a’r Drenewydd
- Aberystwyth



# Y De-orl



Mae dros 700 mil o bobl yn byw yma. Mae bron 150mil yn siarad Cymraeg.



Bae Abertawe a Llanelli fydd y prif ffocws ar gyfer twf. Hon yw'r Ardal Dwf Genedlaethol ar gyfer y De-orllewin.



Bydd angen dros 25 mil o gartrefi newydd yn y **rhanbarth** hwn. Ychydig yn llai na hanner sydd angen bod yn fforddiadwy.



- **Abertawe**
- **Castell Nedd Port Talbot**
- **Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro**
- **Sir Gaerfyrddin**
- **Sir Benfro**

# llewin



Dylai **Cynlluniau Datblygu Strategol** a **Chynlluniau Datblygu Lleol** ddilyn B**argen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe** a chynlluniau pwysig eraill ar gyfer y **rhanbarth**.

Yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol yw:

- Caerfyrddin
- Aberdaugleddau
- Hwlffordd
- Penfro
- Doc Penfro



Mae arnon ni eisiau **Metro** ar gyfer y De-orllewin. Mae arnon ni eisiau ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus, a seiclo neu gerdded i leoedd fel gwaith, gweithgareddau hamdden ac addysg. Dylai cynlluniau gefnogi hyn. Ac edrych ar ffyrdd o wneud y gorau o'r ffaith bod gennym ni **Fetro**.



Mae pedwar porthladd pwysig iawn yn y **rhanbarth** hwn - Aberdaugleddau, Port Talbot, Abertawe ac Abergwaun. Mae'n rhaid i ni gynllunio'n ofalus ar bob lefel i gefnogi'r porthladdoedd hyn.




Mae Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn harbwr naturiol pwysig iawn yn y rhanbarth hwn. Mae'n lle da i wneud ynni glân. Dylai cynlluniau reoli datblygiad a thwf hyn yn ofalus.





# De-ddw



Hwn yw'r **rhanbarth** mwyaf o ran y nifer o bobl sy'n byw yma. Mae dros 1.5 miliwn o bobl yn byw yma. Ond hwn yw'r **rhanbarth** lleiaf o ran tir.




Mae ychydig dros 150 mil o siaradwyr Cymraeg.



Mae'r Ardal Dwf Genedlaethol ar gyfer y De-ddwyrain yn cynnwys Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd.



- **Blaenau Gwent**
- **Bro Morgannwg**
- **Caerdydd**
- **Caerffili**
- **Casnewydd**
- **Merthyr Tudful**
- **Pen-y-bont ar Ogwr**
- **Rhondda Cynon Taf**
- **Sir Fynwy**
- **Torfaen**

# yrain



Caerdydd yw ein prifddinas, a hi yw ein prif ganolfan yng Nghymru ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, cyllid ac **economi** gyda'r nos – pethau fel tafarndai, clybiau a theatrau.



Mae hanner yr holl alw am dai newydd yng Nghymru yn y **rhanbarth** hwn. Bydd arnon ni angen dros 66 mil o dai newydd yma. Bydd ar bron i hanner angen bod yn fforddiadwy.



Dylai twf fod ar wasgar yn y **rhanbarth** hwn. Mae cymunedau o amgylch Caerdydd yn bwysig ar gyfer cadw'r ddinas yn lle ardderchog.



Mae’n rhaid i gynlluniau datblygu gefnogi **Metro** y De-ddwyrain. Bydd hyn yn helpu pobl i deithio yn gynt ac yn haws o amgylch y **rhanbarth** ar gludiant cyhoeddus a thrwy seiclo neu gerdded.




Mae arnon ni eisiau gweld twf yng Nghasnewydd. Mae arnon ni eisiau defnyddio tir ac adeiladau yng Nghasnewydd sydd wedi cael eu gadael yn wag am amser hir.




Dylai cynlluniau ar gyfer y **rhanbarth** gyfan gefnogi twf yng Nghasnewydd. Dylai hyn ein helpu i lacio’r pwysau ar gyfer cael mwy o dwf yng Nghaerdydd.



Mae hanner ein holl arian yn cael ei wneud yn y De-ddwyrain. Mae’n rhaid i ni feddwl yn ofalus ynglŷn â’r ffordd y gall ein cynlluniau gefnogi hyn.



Mae gan y **rhanbarth** hon rai o’r cymunedau cyfoethocaf a’r tlotaf hefyd. Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod holl bobl y **rhanbarth** yn cael y cyfle i wneud yn dda. A chael gwasanaethau ardderchog.



Mae llifogydd yn broblem fawr yn y **rhanbarth** hwn. Gallai hyn gael effaith ar dwf. Mae'n rhaid i ni gael cynlluniau cryf ar gyfer rheoli llifogydd.



Byddwn yn cefnogi cynlluniau i wella adeiladau a gwasanaethau ym Maes Awyr Caerdydd.



Mae arnon ni eisiau ffyrdd gwell a haws o gyrraedd y maes awyr. Gan gynnwys gwell cludiant cyhoeddus i'r maes awyr.



Mae arnon ni eisiau cael **Parc Rhanbarthol y Cymoedd**, i gael pobl i ymweld a gwneud y mwyaf o'r wlad hardd yma.



Mae glan môr hardd a lleoedd hanesyddol sydd angen eu hamddiffyn a'u mwynhau hefyd. Mae arnon ni angen gwneud y mwyaf ohonyn nhw.

# Y ffordd rydyn ni'n cynllunio a rheoli twf



Mae **ffframwaith** **Cymru'r Dyfodol** wedi ei wneud o bolisïau. Mae rhai ar gyfer mannau penodol a **rhanbarthau**, ac mae eraill yn ymwneud â Chymru gyfan ac mae angen meddwl amdanyn nhw ym mhob penderfyniad cynllunio.



Mae'r polisïau yn ein helpu i reoli twf a gwneud yn siŵr bod lleoedd yn cael eu cynllunio'n dda. Mae lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda:

- yn lleihau'r angen i deithio mewn car ac annog pobl i gerdded, seiclo neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus

- gyda llawer o leoedd gwyrdd, fel parciau, caeau chwarae,tiroedd coediog a choed yn y stryd ble nad yw adeiladau'n cael bod

- yn helpu i wneud yn siŵr bod yr aer yn lân

- yn cysylltu cartrefi a busnesau i wasanaethau hanfodol fel ynni, dŵr a'r rhyngrwyd

- gyda lleoedd cymdeithasu da a mannau cyfarfod i bobl eu defnyddio.

**Dyma rai polisïau sy'n ymwneud â Chymru gyfan:**

## Canol trefi yn gyntaf



Nid ar gyfer siopa'n unig y mae canol trefi. Mae arnyn nhw angen bod yn ganolfannau ar gyfer addysg, iechyd, gweithgareddau hamdden a gwasanaethau cyhoeddus hefyd.



Dylai pobl fedru cerdded, seiclo neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd y lleoedd hyn.



Mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus mawr, newydd gael eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd. Maen nhw hefyd yn fannau da ar gyfer cartrefi newydd.

## Gwella cludiant cyhoeddus



Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Felly mae arno angen bod yn dda, yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn hawdd i bawb ei ddefnyddio.



Mae trenau yn rhan bwysig o hyn. Byddwn yn gweithio gyda **Thrafnidiaeth Cymru** i droi gorsafoedd yn hybiau pwysig i'r gymuned, ble gallwn roi gwasanaethau a busnesau.

## Signal ffôn symudol a rhyngrwyd band eang



Mae ffonau symudol a rhyngrwyd cyflym yn wasanaethau pwysig iawn. Maen nhw wedi bod yn hyd yn oed mwy pwysig i'n bywydau bob dydd yn ystod y coronafeirws.



Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gennym ni signalau ffonau symudol a rhyngrwyd o un pen o Gymru i'r llall.



Byddwn yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd â signalau ffonau symudol gwael neu ddim signalau o gwbl. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid fel cwmnïau ffôn i wneud hyn.

## Cerbydau ynni glân



Mae cerbydau ynni glân fel ceir trydan yn gollwng llai o nwyon sy'n gwneud niwed i'r **amgylchedd**.




Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod digon o leoedd i drydanu cerbydau trydan o un pen o Gymru i'r llall. Mae'n rhaid i ni feddwl am hyn wrth gynllunio twf a newid.

## Lleoedd gwyrdd



Mae arnon ni eisiau:

- amddiffyn planhigion ac anifeiliaid
- gwneud ein **hamgylchedd** yn gryfach
- amddiffyn lleoedd pwysig.

Rydyn ni'n gweithio gyda **Chyfoeth Naturiol Cymru** i ddod o hyd i leoedd sy'n bwysig i'w hamddiffyn. Mae arnon ni eisiau dod o hyd i leoedd fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

## Coedwig Genedlaethol



Mae arnon ni eisiau cael **Coedwig Genedlaethol**. Byddwn yn dod o hyd i'r lle gorau ar ei chyfer.




Mae llawer o fanteision i diroedd coediog. Er enghraifft maen nhw'n helpu i leihau **llygredd**. A lleihau'r perygl o lifogydd. Mae arnon ni angen mwy o dir coediog i helpu i wneud ein **hamgylchedd** yn gryfach.



Rydyn ni wedi gosod targedau mawr ar gyfer mwy o dir coediog o 2020. A byddai **Coedwig Genedlaethol** yn ein helpu i gyrraedd y nod hwn. Gallai hefyd helpu i ddarparu gwaith. A chael mwy o bobl i ymweld â Chymru.

# Ynni glân



Mae ar bob tŷ a phob gweithle angen gwres ac ynni.



Mae arnon ni angen eu cael nhw mewn ffordd lân. Mae hyn yn meddwl mewn ffordd sydd ddim yn defnyddio pethau sy'n darfod ac sy'n ddrwg i'r **amgylchedd**. Fel glo ac olew.



Rydyn ni wedi gosod nodau uchel ar gyfer gwneud ynni glân.



Byddwn yn cefnogi ffermydd gwynt a ffermydd haul ar y tir i wneud ynni glân.



Mae ffermydd gwynt yn defnyddio peiriannau gwynt mawr i wneud ynni o'r gwynt.



Mae ffermydd haul yn defnyddio paneli solar i wneud ynni o’r haul.



Gall ffermydd gwynt a ffermydd haul effeithio ar ein tir. Byddwn yn meddwl yn ofalus am yr effeithiau y gallan nhw eu cael wrth ddewis ble y dylen ni eu rhoi nhw.




Ac rydyn ni wedi gosod rheolau clir ynglŷn â hyn.



Ni ddylai prosiectau mawr gwynt a haul ddigwydd mewn:

- Parciau Cenedlaethol
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol



Mae gennym ni ddiddordeb mewn pob math o ynni glân sy’n gallu ein helpu i gyrraedd ein nodau. Gallai hyn gynnwys ynni o’r môr a’r afonydd.

# Rhwydweithiau Gwresogi



Mae **Rhwydwaith Gwresogi** yn grŵp o beipiau. Mae'r peipiau'n mynd â gwres a dŵr poeth o'r lle y maen nhw'n dod ohono i mewn i lawer o wahanol adeiladau.



Dylen ni gael **Rhwydweithiau Gwresogi** mewn cymaint o leoedd â phosibl. Y peipiau hyn yw'r ffordd orau o roi gwres i lawer o adeiladau.




Dylai unrhyw brosiectau sydd ar raddfa fawr gael cynllun arbennig ar gyfer **Rhwydweithiau Gwresogi**. Dylai ddweud ai **Rhwydwaith Gwresogi** yw'r dewis gorau o ynni ar gyfer y prosiect.

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd yw ble rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer, a phopeth sy'n byw ynddyn nhw neu arnyn nhw. Er enghraifft planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Cyfoeth naturiol

Mae cyfoeth naturiol yn bethau fel gwynt, yr haul, dŵr, glo a haearn. Maen nhw'n dod o fyd natur a gallwn eu defnyddio ar gyfer pethau fel ynni, pŵer a bwyd.

## Economi

Yr economi yw faint o arian sydd gan wlad a hefyd faint o arian sydd gan unigolion.

## Fframwaith

Mae fframwaith yn ddogfen sydd â set o reolau a syniadau i bobl eu dilyn wrth wneud penderfyniadau pwysig.

## Llygredd

Llygredd yw pan fydd unrhyw beth sy'n achosi niwed i'r amgylchedd yn cael ei ollwng i'r ardal oddi amgylch. Er enghraifft nwyon fel carbon.

## Metro

System gludiant yw metro.

## Rhanbarthau

Ar gyfer y gwaith hwn bydd Cymru'n cael ei rhannu'n bedair rhanbarth – Y Gogledd, Y Canolbarth, Y De-orllewin a'r De-ddwyrain.

## Rhwydwaith Gwresogi

Mae Rhwydwaith Gwresogi yn grŵp o beipiau. Mae'r peipiau'n mynd â gwres a dŵr poeth o'r lle y maen nhw'n dod ohono i mewn i lawer o wahanol adeiladau.

## Technoleg

Mae technoleg yn bethau fel cyfrifiaduron, peiriannau ac offer.